



HYSBYSIAD STATUDOL I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL UWCHRADD ST DAVID'S, SALTNEY, SIR Y FFLINT.

CYNGOR SIR Y FFLINT

RHODDIR RHYBUDD yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, bod Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ("yr awdurdod lleol"), ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yn ôl yr angen, yn bwriadu: -

- Gostwng ystod oedran Ysgol Uwchradd St. David's, Saltney o 11-18 i 11-16 o 1 Medi 2016.
- Cau darpariaeth ôl-16 (chweched dosbarth) yn Ysgol Uwchradd St.David's, Saltney o 31 Awst 2016.

Cynigir bod disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Uwchradd St.David's, sydd yn dymuno cael mynediad i ddarpariaeth Ôl-16 (chweched dosbarth) yn trosglwyddo i Hwb Ôl-16 Cei Connah, neu leoliad addas arall a ddewisir gan fyfyrwyr, ac ar yr amod bod llefydd ar gael.

Cynhaliodd yr awdurdod lleol gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig. Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, sydd yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ymatebion y cynigydd, a barn gan Estyn ar gael yn www.flintshire.gov.uk

Fe ymdrinnir â threfniadau derbyn ar gyfer ysgolion eraill sydd â chweched dosbarth y mae'r dysgwyr yn eu dewis, yn unol â Pholisi Derbyn yr Awdurdod Lleol.

Fe ymdrinnir â chludiant disgyblon gan gyfeirio at Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol.

O fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi, hynny yw erbyn 2 Chwefror, 2015, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Dylid anfon gwrthwynebiadau at yr Adran Addysg ac Ieuencid - Prif Swyddog, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND.

O dan Adran 50 Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013), bydd y cynnig hwn angen cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru pa unai a dderbynnir gwrthwynebiadau neu beidio gan fod hyn yn effeithio ar addysg chweched dosbarth.

O fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi o'r dogfennau a restrir yn isadran (4) o adran 50 o Ddeddf 2013 i Weinidogion Cymru.

Llofnodwyd

Prif Swyddog Addysg ac Ieuencid

Dyddiedig 6 Ionawr 2015.

NODYN ESBONIADOL:

Nid yw'r nodyn hwn yn ffurfio rhan o'r hysbysiad statudol, ond bwriedir iddo esbonio ei ddiben cyffredinol

Mae Cyngor Sir y Fflint sydd yn gweithredu fel yr Awdurdod Lleol, yn bwriadu newid ystod oedran Ysgol Uwchradd St. Davids, Saltney o 1 Medi 2016.

Bydd lleoliad chweched dosbarth amgen yn Hwb Ôl-16, yng Nghei Connah yn cael ei gynnig i fyfyrwyr. Gellir cael mynediad at addysg a hyfforddiant Ôl-16 arall yn yr un modd ag ar hyn o bryd.

Bydd y newid yn golygu y bydd y chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd St.David's yn cau, fodd bynnag, gwneir trefniadau i barhau â'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd eisoes wedi cychwyn eu cyrsiau chweched dosbarth.

Bydd trefniadau Cludiant a Derbyniadau yn unol â pholisïau cyffredinol Cyngor Sir y Fflint.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynigion ar gael gan y Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid - Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND (Ffôn 01352 704135)